

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener diwethaf.

## Coleg y Bala

Ar ddechrau blwyddyn mae Coleg y Bala wedi cyhoeddi taflen o ddyddiadau'r gwahanol gyrsgiau a fydd yno eleni.

Y dyddiad sydd wedi ei nodi ar gyfer Cwrs Plant Llanberis a Llanrug a Bethel yw dydd Gwener, Mai 13 hyd ddydd Sul, Mai 15. Bydd hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed.

Er mai 'Llanberis a Llanrug a Bethel' sydd ar y daflen, mi fydd croeso i blant yr Ofalaeth gyfan ymuno â'r criw a fydd yn mynd i'r Bala. Daw rhagor o fanylion yn nes ymlaen.

Nodwch y dyddiad, felly: Mai 13–15.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Chwefror 5:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Ionawr 29:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caeathro. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Ionawr 29

5.00 p.m. - Mr John Roberts

### Chwefror 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

### Chwefror 12

5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

## REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 5:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## BETHLEHEM

**Dydd Sul, Chwefror 5:** Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gwenda Richards, Caernarfon.

## CARMEL

**Dydd Llun, Ionawr 30:** Te Bach yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Chwefror 3:** Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 5:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymundeb yn ystod yr oedfa.

## CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Ionawr 30:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Llanberis

### Ionawr 29

10.00 a.m. - Y Canon Idris Thomas

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Dewi T Morris

### Chwefror 5

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan

11.15 a.m. - Ysgol Sul

### Chwefror 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI



## Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 714: Dydd Sul, 29 Ionawr, 2017

## Spiceriaeth

Fyddwn i ddim wedi medru tynnu sylw at hyn oll heb yr ysbrydoliaeth a ddaeth oddi wrth un dyn arall a fu yn y newyddion yr wythnos ddiwethaf; yr annwyl a'r dibynadwy Sean Spicer. Oni bai am ei gyngor a'i esiampl, mi fyddwn wedi meddwl ddwywaith cyn dod â'r ffeithiau hyn i'ch sylw. Ond mae Mr Spicer, Ysgrifennydd Y Wasg newydd Y Tŷ Gwyn, wedi dangos nad oes raid i bethau a gyhoeddir fod yn wir. Yn ei ddatganiadau cyntaf ar ran ei Arlywydd newydd cyhoeddodd Spicer sawl celwydd, ond gan fynnu er hynny bod Donald Trump yn eu credu. Yn niffyg unrhyw brawf, ac yn wyneb pob tystiolaeth i'r gwrthwyneb, daliai Spicer i ddatgan fod yr Arlywydd ei hun yn credu bod y pethau hyn yn wir. Peth gwirioneddol frawychus yw'r 'Spiceriaeth' hon sy'n caniatáu i'r Arlywydd a'i was droi celwyddau'n wirioneddau, a chondemnio a thawelu unrhyw un sy'n meiddio tynnu sylw at y peth.

Nid yw'r ffaith ein bod ni'n credu pethau o reidrwydd yn golygu fod y pethau hynny'n wir. Gallwn gredu pethau'n ddiffuant, a bod yn anghywir. Dyna pam fod angen i'n syniadau am Dduw a Christ fod yn gyson â'r hyn a ddywed Duw ei hun yn ei Air. Gallwn arddel pob math o syniadau anghywir, a'u credu'n angerddol, ond os ydynt yn groes i'r hyn a ddatguddiodd Duw yn ei Air, anwireddau Spiceraidd ydynt hwythau. A'r deg enw uchod? Deg Ysgrifennydd y Wasg blaenorol y Tŷ Gwyn. A dyna'r gwir. Wir i chi!

Byddwch yn onest rŵan! Dywedwch y gwir! Ydi enwau Mike McCurry, Joe Lockhart, Jake Siewert, Ari Fleischer, Scott McClellan, Tony Snow, Dana Perino, Robert Gibbs, Jay Carney a Josh Earnest yn gyfarwydd i chi? Pwy oedden nhw (neu pwy ydyn nhw), a pham sôn amdanyn nhw heddiw?

Daeth teyrnasiad Bernie Ecclestone dros fyd rasio ceir Fformiwla 1 i ben ddydd Llun. Bu'r deg uchod yn gyrru ceir Fformiwla 1 yn ystod y cyfnod y bu Ecclestone wrth y llyw. Am a wn i, yr un a ddaeth agosaf at ennill ras oedd Jake Siewert (ond yr unig reswm am hynny oedd bod ei enw mor debyg i Jackie Stewart!)

Fe gyhoeddwyd yr enwebeion ar gyfer seremoni'r Oscars ddydd Mawrth. Yn rhyfedd iawn, mae'r deg enw uchod ymhlith yr actorion a'r cynhyrchwyr a'r cyfansoddwyr a enwebwyd ar gyfer y gwobrau. Yn ôl y gwybodusion, mae Ari Fleisher yn siŵr o dderbyn Oscar am ei ran yn y ffilm *La La Land*.

A thipyn o ryfeddod oedd deall mai dyma hefyd yw enwau deg o un barnwr ar ddeg Y Goruchaf Lys a gyhoeddodd ddydd Mawrth bod rhaid i Lywodraeth San Steffan ymgynghori â'r Senedd cyn mynd ati i weithredu 'Cymal 50'. Yr Arglwydd Lockart a'r Arglwydd Gibbs oedd dau o'r tri a oedd yn anghydweld â'r wyth arall yn hyn o beth.

Ie, deg enw diddorol, am sawl rheswm.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

'Curwch ddwylo, yr holl  
bobloedd; rhowch wrogaeth i  
Dduw â chaneuon gorfoledd. **BEIBL BYW**  
Oherwydd y mae'r ARGLWYDD, y  
Goruchaf, yn ofnadwy, yn frenin mawr  
dros yr holl ddaear' (Salm 47:1-2).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00  
o'r gloch gan y Canon Idris Thomas,  
Deiniolen ac am 5.00 o'r gloch gan y  
Parchg Dewi T Morris, Porthmadog.  
Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r  
gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am  
10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00  
o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am  
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00  
o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams,  
Llanfairfechan.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb  
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n  
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Margaret ac Ifor Jones  
Llainwen, Racca o ddeall am farwolaeth  
mam Margaret, Mrs Alice Mary Hughes  
yn ei chartref yn Waunfawr ddydd Llun  
diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad  
hefyd i Ffion a'r teulu yng Nghlwt y  
bont, o golli nain a hen nain.

## Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng  
Nghricieth unwaith eto eleni.

Dyma'r trydydd tro iddi gael ei chynnal  
yno, a'r dyddiadau eleni yw Ebrill 17 hyd  
Ebrill 20. Bydd yn cychwyn felly ddydd  
Llun y Pasg.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae  
Llanw wedi datblygu'n ŵyl boblogaidd  
sy'n denu cannoedd o Gristnogion o bob  
oed o bob rhan o'r wlad. Bydd croeso  
cynnes i bawb a fydd yn mynd yno.

Dros dri bore ceir anerchiadau gan y  
Parchg John Treharne, Llwynhendy.  
Bydd gwahanol seminarau yn ystod y  
prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob  
gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu  
harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

Bydd modd aros yng Nghanolfan Wyliau  
Hafan y Môr ym Mhwlheli yn ystod yr  
wythnos, ac mae angen rchebu lle yno  
erbyn Chwefror 27. Ceir manylion ar  
wefan Llanw, [www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Nid oes rhaid aros yno wrth gwrs. Mae  
llawer iawn yn dewis mynd i Llanw am y  
dydd neu i ambell un o'r cyfarfodydd.  
Mae hynny yn bosibl wrth gwrs i ni sy'n  
byw o fewn cyrraedd i Gricieth.

Mae'n sicr yn werth mynd i Llanw er  
mwyn profi cymdeithas Gristnogol a  
chael ymuno yn yr addoliad.

## 'Y Ffordd'

Cynhelir ail gyfarfod 'Y Ffordd' yn festri  
Carmel, Llanllechid am 7.00 o'r gloch,  
nos Fercher, Chwefror 15.



## Cyfarfod Chwarter

Roedd Cyfarfod Chwarter Cyfundeb  
Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel  
Bethlehem, Talybont nos Fercher, Ionawr  
25 dan gadeiryddiaeth y Parchg Gareth  
Edwards, Cyffordd Llandudno.

Diolch i Mrs Jean Hughes a Mr Neville  
Hughes am arwain y defosiwn ac i Mrs  
Barbara Jones am gyfeilio. Diolch hefyd  
i bawb a fu'n helpu i baratoi ac i weini'r  
lluniaueth yn y festri ar ôl y cyfarfod.

Ar derfyn ei dymor o ddwy flynedd fel  
Cadeirydd y Cyfundeb, cafwyd anerchiad  
cryno ond cynhwysfawr iawn gan y  
Parchg Gareth Edwards. Soniodd am y  
Gristnogion yn eu perthynas ag eraill:  
rydym yn perthyn i'n gilydd o fewn yr  
Eglwys; rydym yn perthyn i Grist; ac yr  
ydym yn perthyn i gyfnod. Aeth ymlaen i  
awgrymu rhai o'r pethau y dylai eglwysi  
a chredinwyr unigol eu gwneud er mwyn  
gwasanaethu Crist yn fwy effeithiol yn y

cyfnod arbennig yr ydym yn byw ynddo  
heddiw.

Cyflwynodd Gareth Feibl y Cadeirydd i  
mi i'w gadw am y ddwy flynedd nesaf  
wrth iddo drosglwyddo'r cyfrifoldeb am  
gadeirio cyfarfodydd y Cyfundeb i mi am  
y cyfnod hwnnw.

## Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a  
dderbyniwn i Gronfa Gronyn.

Mae'r cyfan yn help i dalu am gost ar-  
graffu Gronyn bob Sul.

Gellir cyfrannu at y Gronfa unrhyw adeg,  
a gwerthfawrogwn bob cyfraniad yn  
fawr.

Mae modd anfon cyfraniadau at gostau  
Gronyn at Drysorydd yr Ofalaeth, Mrs  
Bet Williams, 21 Stryd yr Wyddfa,  
Llanberis, neu gallwch eu rhoi i'r  
Gweinidog.

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â  
phosibl yn derbyn Gronyn. Felly, os  
gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi  
derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n  
ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi  
gwybod i ni.

## Stampiau

Rydym yn dal i gasglu hen stampiau post  
yn Capel Coch. Mae croeso i chi eu rhoi  
yn y bocs yn y cyntedd. O hyn allan,  
byddwn yn trosglwyddo'r stampiau i Haf  
Thomas, Buarthau, Llanrug er budd  
Cymdeithas y Deillion.

## Banc bwyd

Diolch i bawb sy'n rhoi bwydydd yn y  
bocs Banc Bwyd yng nghyntedd Capel  
Coch. Cofiwch, os oes gennych fwydydd  
addas yn sbâr wedi'r Nadolig bydd y  
Banc Bwyd yn falch iawn ohonynt.